GwerthwchiGymru

Canllaw i Brynwyr - Blwch Postio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Tabl Cynnwys

Beth yw'r Blwch Postio? 2

Sut i greu hysbysiad gyda Blwch Postio 3

Sut mae Cyflenwyr yn gwybod bod Blwch Postio yn cael ei ddefnyddio? 5

Delio ag Ymatebion a Anfonir i'r Blwch Postio 6

- Statws Blwch Postio 7
- Agor y Blwch Postio 8
- Ychwanegu Nodiadau 9
- Lawrlwytho ymatebion 10

Delio ag Ymatebion a Anfonir i'r Blwch Postio yn hwyr 11

Nodiadau 14

Beth yw'r Blwch Postio?

Mae'r Blwch Postio yn gyfleuster ar-lein sy'n caniatáu i brynwyr dderbyn ymatebion gan gyflenwyr yn electronig mewn amgylchedd diogel.

Cyflwynir ymatebion drwy'r porth ac fe'u delir yn y Blwch Postio diogel nes bod y dyddiad cau ar gyfer ymatebion wedi mynd heibio. Yna gall aelodau enwebedig o sefydliad prynu ddatgloi'r Blwch Postio er mwyn gweld yr ymatebion a gyflwynwyd.

Gall y Blwch Postio gael ei ddefnyddio i dderbyn dogfennau tendr wedi'u cwblhau mewn gweithdrefn agored neu Holiaduron Cyn-Gymhwyso (PQQ) wedi'u cwblhau mewn gweithdrefn gyfyngedig.
Noder: Er mwyn defnyddio'r Blwch Postio ar gyfer yr ail gam mewn gweithdrefn gyfyngedig, gweler y canllaw i ddefnyddwyr ar Gam 2.

Cedwir trywydd archwilio llawn o'r mynediad a geir i'r Blwch Postio a chaiff cofnod cyflawn o'r holl ymatebion a anfonwyd gan gyflenwyr ei storio.

Sut i greu hysbysiad gyda Blwch Postio

Yn ystod y broses o greu hysbysiad, mae'r cyhoeddwr yn dewis **Blwch Postio Tendrau** o'r sgrin **Opsiynau Ychwanegol ar gyfer yr Hysbysiad**.

Ar y **sgrin Blwch Postio ar gyfer Cyflwyno Tendrau** gofynnir i'r prynwr ddewis y defnyddiwr/wyr o'i sefydliad prynu er mwyn cael yr hawl i ddatgloi'r Blwch Postio. Dim ond y defnyddwyr hynny sydd â mynediad **Agorwr Blwch Postio** fydd yn ymddangos ar y rhestr.



Unwaith y bydd yr hysbysiad wedi'i gyhoeddi, bydd agorwyr y blwch postio yn derbyn neges e-bost yn cadarnhau manylion y Blwch Postio, sy'n darllen:

Cyf y Tendr: MAI045455
Teitl: Llogi peiriannau
Dyddiad cau: 28/05/2013 12:00

Mae'r hysbysiad uchod bellach wedi'i gyhoeddi. Caiff yr ymatebion i'r tendr hwn eu derbyn yn electronig a'r aelodau canlynol o'ch awdurdod sy'n gyfrifol am fonitro ac agor y Blwch Postio Cyflwyno Tendrau:

John Harrowgate
Jane Smith

Gallwch weld statws y Blwch Postio Cyflwyno Tendrau ar gyfer yr hysbysiad hwn yma:

(dolen i'r dudalen Gweld yr Hysbysiad)

O'r fan honno, gellir gweld nifer yr ymatebion a dderbyniwyd hyd yma a phan fydd y dyddiad cau wedi mynd heibio gellir agor y blwch postio a gweld manylion llawn yr ymatebion a lawrlwytho dogfennau.

Cofion
Sell2Wales Support / Cymorth GwerthwchiGymru
Tel: 0844 5610672 (English) / Ffon: 03000 123456789 (Cymraeg)

Noder: Pennir y dyddiad cau ar gyfer y Blwch Postio yn ôl y dyddiad a nodir gennych yn y Cwestiwn am yr Amserlen.
Dyma'r dyddiad a'r amser a nodir yn y maes:
Dyddiad Cau ar gyfer Derbyn Dogfennau Tendr - Gweithdrefnau Agored/un cam
Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau i Gymryd Rhan - Gweithdrefnau Cyfyngedig dau gam
Gellir newid y dyddiad cau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad os bydd angen.

Sut mae Cyflenwyr yn gwybod bod Blwch Postio yn cael ei ddefnyddio?

Ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar y porth, bydd yn ymddangos ar y dudalen **Porwch Yr Hysbysiadau** gan ddangos eicon allwedd felen sy'n dynodi y gall y blwch postio gael ei ddefnyddio.

Bydd Dolen yn ymddangos yn y disgrifiad byr o'r hysbysiad hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i gyflenwyr gofrestru eu diddordeb ac yn nodi y caiff y Blwch Postio ei ddefnyddio ar gyfer yr hysbysiad hwn.

Rhaid i unrhyw gyflenwr sydd am gyflwyno ymateb drwy'r Blwch Postio gofnodi ei ddiddordeb yn yr hysbysiad ar y porth.
(Noder: Am ragor o fanylion am y broses i gyflenwyr, gweler y canllaw perthnasol i ddefnyddwyr.)

Delio ag Ymatebion a Anfonir i'r Blwch Postio

Unwaith y bydd ymateb wedi'i anfon i'r Blwch Postio gan y cyflenwr, anfonir neges e-bost at bob un o ddefnyddwyr yr awdurdod sydd â mynediad i'r Blwch Postio. Mae'r neges e-bost hon yn darllen fel a ganlyn:

Cyf y Tendr: MAI045456
Teitl: Llogi Peiriannau
Dyddiad cau: 28/05/2013 12:00

Mae ymateb â'r rhif cyfeirnod 188 wedi'i dderbyn ar gyfer yr hysbysiad a ddangosir uchod ar 14 Mai 2013 13:38:44

Gallwch weld statws cyfredol eich Blwch Postio Cyflwyno Tendrau ar gyfer yr hysbysiad hwn yn -

(dolen i'r dudalen Ymatebion a anfonwyd i'r Blwch Postio)

Cofion,
Sell2Wales Support / Cymorth GwerthwchiGymru
Tel: 0844 5610672 (English) / Ffon: 03000 123456789 (Cymraeg)

Statws Blwch Postio

Dim ond Rheolwr(wyr) y sefydliad prynu a'r agorwyr a ddewiswyd all fynd i mewn i'r dudalen statws Blwch Postio. Gellir ei defnyddio drwy fynd i fan gweithio'r hysbysiad a gyhoeddwyd (dewiswch **Prynwyr** yn y brif ddewislen ar y brig ac yna dewiswch **Hysbysiadau a Gyhoeddwyd gan yr Awdurdod**), gan ddewis teitl yr hysbysiad perthnasol ac yna **Gweld y Blwch Postio Cyflwyno Tendrau** o dan **Opsiynau Ychwanegol ar gyfer yr Hysbysiad**.



Mae'r dudalen statws blwch postio yn rhoi manylion pob ymateb sydd wedi'i greu. Mae'r statws ymateb yn dangos statws pob ymateb:
Cyflwynwyd – Yn cyfeirio at ymatebion sydd wedi'u cwblhau a'u cyflwyno i'r blwch postio.
Heb ei Gyflwyno - Yn cyfeirio at ymatebion sydd wedi'u creu'n rhannol ond sydd heb eu hanfon i'r blwch postio eto.

Nid yw manylion y cyflenwyr yn weladwy nes bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau wedi mynd heibio. Mae'r dudalen statws Blwch Postio hefyd yn rhestru'r agorwyr Blwch Postio awdurdodedig, y gellir eu newid gan y Rheolwr drwy ddewis **Newid agorwyr awdurdodedig y blwch postio**, os bydd angen.

Agor y Blwch Postio

Os bydd un o'r agorwyr yn ceisio datgloi'r Blwch Postio cyn y dyddiad cau a nodir, ni fydd yn llwyddiannus a chaiff ei ymgais i agor y Blwch Postio ei chofnodi yn y llyfr cofnodi mynediad.

Unwaith y bydd y dyddiad cau wedi mynd heibio, bydd y rhai a enwebwyd i agor y Blwch Postio yn derbyn neges e-bost yn eu hatgoffa i fewngofnodi i'r wefan er mwyn datgloi'r Blwch Postio.

Cyn y gellir mynd at y cyflwyniadau, rhaid i bob defnyddiwr perthnasol ddewis **Datgloi.**

Cofnodir yr amser a'r dyddiad bob tro y caiff y Blwch Postio ei ddatgloi. Unwaith y bydd yr holl ddefnyddwyr perthnasol wedi datgloi'r Blwch Postio, bydd yr opsiwn i **Agor** y Blwch Postio yn ymddangos.



Wrth ddewis **Agor**, caiff y dudalen **Statws Blwch Postio** ei dangos a gellir lawrlwytho ymatebion. Caiff y cofnod mewngofnodi ei ddangos ar y dudalen hon.

Ychwanegu Nodiadau

Ar ôl agor y blwch postio, caiff y Prynwyr opsiwn i ychwanegu nodyn i'r blwch postio drwy ddewis **Creu Nodyn Newydd**. Pan fo'r nodyn wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Prynwr ddewis **Cadw**. Caiff y nodyn ei ychwanegu a bydd yn dangos pa Brynwr a ychwanegodd y nodyn ynghyd â dyddiad creu'r nodyn. Nid oes terfyn ar y nifer o nodiadau y gellir eu hychwanegu i'r Blwch Postio.





Lawrlwytho ymatebion

Dim ond ymatebion a gwblhawyd a restrir yn y Blwch Postio sydd ar agor. Caiff yr ymatebion gwreiddiol eu storio yn y system a gellir eu lawrlwytho cynifer o weithiau ag sydd ei angen. Mae gan bob ymateb rif cyfeirnod unigryw a roddir i'r cyflenwr pan fydd yn cyflwyno ei ymateb yn llwyddiannus.

Gallwch lawrlwytho'r Blwch Postio cyfan i ffeil sip drwy ddewis y ddolen **Lawrlwytho'r holl ymatebion…**. Dylai hyn gynhyrchu ffenestr naid sy'n gofyn p'un a ydych am arbed neu agor y ffeil.



Bydd y ffeil sip yn cynnwys ffolder o'r holl ymatebion a ffeil .txt a fydd yn rhestru'r ymatebion a manylion y blwch postio.

Darperir pob ymateb yn ei ffolder ei hun a bydd yn cynnwys pob dogfen a lanlwythwyd gan y cyflenwr ynghyd â ffeil .txt sy'n nodi manylion yr ymateb.

Gallwch hefyd weld a lawrlwytho ymatebion yn unigol drwy ddewis enw'r cyflenwr.

Delio ag Ymatebion a Anfonir i'r Blwch Postio yn hwyr

Gall cyflenwyr anfon ymatebion i'r blwch postio ar ôl y dyddiad cau a nodwyd ar yr amod nad yw'r blwch postio wedi'i ddatgloi gan bob un o'r agorwyr dynodedig. Y prynwr fydd yn penderfynu a ddylid derbyn neu wrthod ymateb a anfonir yn hwyr.

Os yw'r cyflenwr wedi anfon ymateb i'r Blwch Postio yn hwyr, anfonir neges e-bost at agorwyr y blwch postio. Mae'r neges e-bost hon yn darllen fel a ganlyn:

Cyf: MAI045421
Teitl: Llogi peiriannau
Dyddiad cau: 09 Mai 2013 12:00

Mae ymateb â'r rhif cyfeirnod 159 wedi'i dderbyn ar gyfer y Dyfynbris Cyflym a ddangosir uchod ar 09 Mai 2013 13:23:57.

Noder: Derbyniwyd yr ymateb hwn ar ôl y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer y blwch postio. Gallwch dderbyn yr ymateb yn ôl eich disgresiwn.

Gallwch weld statws cyfredol eich Blwch Postio ar gyfer y Dyfynbris Cyflym hwn yn -
(dolen i'r dudalen Ymatebion a anfonwyd i'r Blwch Postio)

Cofion
Sell2Wales Support / Cymorth GwerthwchiGymru
Tel: 0844 5610672 (English) / Ffon: 03000 123456789 (Cymraeg)

Caiff ymatebion a anfonir yn hwyr eu nodi ar y dudalen sy'n nodi statws y blwch postio. Ni all y prynwr weld enw'r cyflenwr sydd wedi anfon yr ymateb i'r blwch postio ond rhoddir rhif adnabod yr ymateb. Os yw'r prynwr wedi bod yn cyfathrebu â chyflenwr sydd wedi anfon ymateb yn hwyr, dylai ofyn i'r cyflenwr am rif adnabod ei ymateb a chymryd y camau priodol. Rhaid derbyn / gwrthod ymatebion a anfonir yn hwyr cyn bod y blwch postio yn cael ei agor ac unwaith y bydd penderfyniad wedi'i gofnodi, ni ellir ei newid. Ni chaiff ymatebion hwyr a wrthodir eu harddangos pan agorir y blwch postio.

Ar ôl dewis **Derbyn/Gwrthod** rhaid i agorwr y blwch postio roi rheswm dros dderbyn neu wrthod yr ymateb hwyr cyn dewis **Derbyn** neu **Gwrthod** a chadarnhau ei ddewis.





Ar ôl i ymateb hwyr gael ei dderbyn neu ei wrthod, caiff y penderfyniad ei ddangos ar y dudalen statws Blwch Postio. Bydd hefyd yn dangos y rheswm dros dderbyn neu wrthod yr ymateb.

Statws Ymateb Presennol

Rhif Cyfeirnod	Crëwyd	Statws	Ymatebion Hwyr
1321	16/03/2015 13:31:39	Cyflwynwyd	yn hwyr **Na**
1303	16/03/2015 13:32:27	Cyflwynwyd	yn hwyr **Na**
1304	16/03/2015 16:20:35	Cyflwynwyd	yn hwyr **Ie** yn cael ei dderbyn **Ie** Rheswm: *acc*
1325	16/03/2015 16:22:20	Heb ei Gyflwyno	yn hwyr **Na**

Noder: Unwaith y byddwch wedi agor y blwch postio, dim ond yr ymatebion a anfonwyd cyn y dyddiad cau a'r ymatebion hwyr a dderbyniwyd fydd yn ymddangos ar y rhestr y gellir ei gweld a'i lawrlwytho fel y disgrifiwyd yn flaenorol o dan **Delio ag Ymatebion a Anfonir i'r Blwch Postio**.

Pob Ymateb

Cyfeirnod	Dyddiad ac amser derbyn	Enw'r Cyflenwr	Ymatebion hwyr
1303	16/03/2015 16:11:47	Millstream - AA16166	yn hwyr **Na**
1321	16/03/2015 16:20:17	Millstream - AA16166	yn hwyr **Na**
1304	16/03/2015 16:22:15	Millstream - AA16166	yn hwyr **Ie** yn cael ei dderbyn **Ie** Rheswm: *acc*

Nodiadau

Dyddiad cau: Dylai ymatebion gael eu hanfon cyn y dyddiad cau. Caiff unrhyw ymateb a anfonir ar ôl y dyddiad cau a chyn i'r blwch postio gael ei agor gan y prynwr ei nodi fel ymateb hwyr a gall y prynwr dderbyn yr ymateb yn ôl ei ddisgresiwn. Ni ddylai cyflenwyr aros tan y funud olaf cyn creu ac anfon ymateb rhag ofn y bydd problemau munud olaf.

Diogelwch y Blwch Postio: Ni all unrhyw un, gan gynnwys Millstream, weld yr ymatebion a anfonwyd i'r blwch postio nes bod y dyddiad cau wedi mynd heibio. Unwaith y bydd ymateb wedi'i anfon, ni ellir ei adalw na'i olygu. Os bydd cyflenwr yn sylweddoli ei fod wedi gwneud camgymeriad yn ei ymateb, yr unig opsiwn yw anfon ymateb arall sy'n disodli'r un gwreiddiol.

Telerau ac Amodau/Cais am Ddogfennau Tendr: Efallai y bydd prynwyr am adolygu'r telerau ac amodau a nodir yn eu cais am ddogfennaeth tendr os byddant yn derbyn ymatebion hwyr neu'n cael problemau technegol.

Gwybodaeth: Bydd pob hysbysiad sy'n defnyddio'r Blwch Postio Cyflwyno Tendrau i dderbyn ymatebion yn nodi'r datganiad isod yn awtomatig:
Mae'r awdurdod dyfarnu wedi nodi y bydd yn derbyn ymatebion electronig i'r hysbysiad hwn drwy'r cyfleuster 'Blwch Postio Cyflwyno Tendrau'. Os mai dim ond ymatebion electronig drwy'r Blwch Postio y mae prynwyr yn eu derbyn, dylai hyn gael ei nodi'n glir yn yr hysbysiad tendr ac yn y dogfennau.

Firysau: Bydd gwiriwr firysau'r gweinydd yn sganio pob dogfen a gaiff ei lanlwytho ac, os deuir o hyd i firws, caiff y ffeil ei dileu a chaiff y cyflenwr ei hysbysu. Ar yr amod nad yw'r dyddiad cau wedi mynd heibio, caiff y cyflenwr gyfle i ddarparu ffeil lân yn lle'r ffeil honno.

Dogfennau Llygredig: Ni ellir canfod llygredd mewn dogfennau. Dylai prynwyr nodi eu polisi ar hyn yn y ddogfen dendr (e.e. caiff ei gwrthod).

Mathau o Ddogfennau: Byddai'n ddefnyddiol pe gallai prynwyr nodi yn yr hysbysiad neu'r dogfennau tendr y mathau o ffeiliau/dogfennau y gall eich sefydliad eu derbyn a'u darllen ar-lein.

Maint dogfennau ac uchafswm nifer y dogfennau a ganiateir: Pennir uchafswm maint o 10Mb ar gyfer unrhyw ddogfen a anfonir drwy'r Blwch Postio. Os bydd cyflenwyr yn ceisio lanlwytho dogfen sy'n fwy na 10Mb, caiff y ddogfen honno ei gwrthod ac ni chaiff ei anfon. Ni ddylai ymatebion a anfonir i'r Blwch Postio fod yn fwy na 30Mb gyda'i gilydd.

Anfon ymateb sawl gwaith: Os yw cyflenwr wedi anfon ymateb eisoes, ni ellir ei adalw. Fodd bynnag, gall cyflenwr anfon ail dendr os dymuna, gan nodi pa ymateb y dylid cyfeirio ato.

Desg Gymorth: Am ragor o gyngor ar ddefnyddio'r cyfleuster ar-lein ar gyfer anfon ymatebion, cysylltwch â'r tîm cymorth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ar hafan y wefan.